**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU |
| **DYDDIAD:** | 20 Rhagfyr 2004 |
| **ADRODDIAD GAN** : | Y TRYSORYDD |
| **PWNC:** | LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH- DATGANIAD O'R CYFRIFON - 2003-2004 |

1. Ynghlwm wrth yr adroddiad hwn mae copïau o ohebiaeth rhwng yr Archwilydd Dosbarth a minnau ynglŷn â'r uchod. Mae llythyr yr Archwilydd Dosbarth yn esbonio'r rheswm dros y llythyr cynrychiolaeth.

2 Gan fod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon dan Reoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio 1996, mae gofyn i'r Awdurdod gydnabod yn ffurfiol y Llythyr Cynrychiolaeth a anfonwyd at yr Archwilydd Dosbarth.

3 Rhagfyr 2004

DFPS/sf/M.27

1 Rhagfyr 2004

K W Finch

01492 576201

David Jones
Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru
Llawr Cyntaf, Uned A
Canolfan Fusnes Parkway
Park Ddiwydiannol
Sir y Fflint
CH5 2LE

Annwyl David

**Llythyr o Sylwadau ar gyfer Cyfrifon Terfynol 2003/2004**

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2004, rwyf yn cadarnhau, cyn belled ag yr wyf yn gwybod ac yn credu, ac wedi gwneud yr ymholiadau priodol, fod yr ymholiadau a ganlyn yn cael eu cyflwyno i chi mewn cysylltiad efo'ch archwiliad am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2004. Nodwch os gwelwch yn dda nad wyf yn gwneud sylwadau ar unrhyw fater nad wyf yn ymwybodol ohono.

1. Nid oes unrhyw asedau/ymrwymiadau arwyddocaol neu weithgareddau ôl-fantolen, heblaw'r rhai hynny sydd wedi'u datgelu yn y datganiadau ariannol. Yn arbennig:

    - nid oes unrhyw eitemau arwyddocaol yn aros ymgyfreithiad, heblaw'r rhai hynny sydd wedi'u datgelu'n barod yn y datganiadau ariannol;

    - nid oes unrhyw ymrwymiadau materol na materion cytundebol, heblaw'r rhai hynny sydd wedi'u datgelu'n barod yn y datganiadau ariannol.

2. Mae holl drafodion yr Awdurdod wedi'u hadlewyrchu a'u cofnodi'n gywir yn y cofnodion cyfrifo.

3. Nid oes unrhyw gynlluniau na bwriadau allai effeithio ar ddosbarthiad neu brisiad asedau a chyfrifoldebau a bod unrhyw leihad parhaol mewn asedau sefydlog wedi'i bennu.

4. Ni chafwyd unrhyw:

    - Anghysondeb yn ymwneud â'r rheolwyr sy'n chwarae rhan arwyddocaol yn y system o reolaeth fewnol y gwaith cyfrifo. Wrth ddatgan hyn, rwyf wedi cymryd mai ystyr "afreoleidd-dra" ydi un o natur twyll.

- Anghysondebau yn ymwneud â chyflogeion eraill allai gael effaith faterol ar y datganiadau ariannol;

- Cyfathrebiadau gan asiantaethau rheoli sy'n ymwneud â diffyg cydsynio â, neu ddiffygiant mewn, ymarferion adrodd ariannol allai gael effaith faterol ar y datganiadau ariannol.

5. Nid oes unrhyw is-gwmnïau, cwmnïau cysylltiol, fentrau ar y cyd na threfniadau ar y cyd heblaw'r rheini sydd wedi'u datgelu yn y cyfriflenni ariannol ac mewn nodiadau cysylltiol.

6. Mae'r datganiadau ariannol a/neu'r nodiadau i'r cyfrifon yn datgelu unrhyw -

   - Achosion neu achosion posib o dorri cyfreithiau neu reoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau i'w datgelu yn y datganiadau ariannol neu fel sail ar gyfer cofnodi colled wrth gefn;

   - Ffactorau materol eraill fyddai'n dylanwadu ar farn darllenwyr y mantolenni.

7. Nid yw asedau'r Awdurdod wedi'u defnyddio mewn unrhyw ffordd fel gwarant ar gyfer benthyciadau.

8. Mae'r holl ymrwymiadau dan brydlesau ariannol neu gytundebau hurbrynu wedi'u datgelu yn y cyfrifon.

9. Nid oes unrhyw warantau ariannol wedi'u rhoi i drydydd parti.

10. Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â phob agwedd o'r cytundebau cytundebol fyddai'n gofyn gwneud addasiad i, neu wneud datgeliad yn y datganiadau ariannol.

11. Nid oes unrhyw drafodion materol eraill gyda phartïon perthnasol (fel y maent wedi'u diffinio gan FRS 8 a'r LG SORP), heblaw'r rhai hynny sydd wedi'u cofnodi a'u datgelu yn y datganiadau ariannol.
    Mae'r holl fuddion heb eu cyllido (e.e. blynyddoedd ychwanegol dewisol) wedi'u hystyried wrth gasglu'r ffigurau FRS17 sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol.

Trefnwyd i roi copi o'r llythyr hwn i'r Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Tân.

Yn gywir

Trysorydd

Copio i: Ian Miller, Swyddog Monitro
Simon Smith, Prif Swyddog Tân

Ken Finch
Trysorydd Awdurdod Tân Gogledd Cymru
d/o Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Swyddfeydd y Cyngor
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 25 Tachwedd 2004 |
| **Ein cyfeirnod** | Man Reps |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif Ffôn** | 01244 288530 |
| **Rhif Ffacs** | 01244 288531 |
| **Ebost** | d-jones@audit-commission.gov.uk |
| **Tudalennau** | **4** o **5** |

Annwyl Ken

**Cynrychiolaethau Rheoli mewn perthynas â Chyfriflen 2003/2004**

Yn unol â'n trefn archwilio blynyddol arferol a SAS 440 (Cynrychiolaethau Rheoli) gaf i ofyn i chi ddarparu cynrychiolaethau ffurfiol ar nifer o faterion yn ymwneud â'r cyfrifon ariannol sydd wedi'u nodi isod os gwelwch yn dda:

1. Nid oes unrhyw asedau/ymrwymiadau arwyddocaol neu weithgareddau ôl-fantolen, heblaw'r rhai hynny sydd wedi'u datgelu yn y datganiadau ariannol. Yn arbennig:

    - nid oes unrhyw eitemau arwyddocaol yn aros ymgyfreithiad, heblaw'r rhai hynny sydd wedi'u datgelu'n barod yn y datganiadau ariannol;

    - nid oes unrhyw ymrwymiadau materol na materion cytundebol, heblaw'r rhai hynny sydd wedi'u datgelu'n barod yn y datganiadau ariannol.

2. Mae holl drafodion yr Awdurdod wedi'u hadlewyrchu a'u cofnodi'n gywir yn y cofnodion cyfrifo.

3. Nid oes unrhyw gynlluniau na bwriadau allai effeithio ar ddosbarthiad neu brisiad asedau a chyfrifoldebau a bod unrhyw leihad parhaol mewn asedau sefydlog wedi'i bennu.

4. Ni chafwyd unrhyw:

    - Anghysondeb yn ymwneud â'r rheolwyr sy'n chwarae rhan arwyddocaol yn y system o reolaeth fewnol y gwaith cyfrifo;

    - Anghysondebau yn ymwneud â chyflogeion eraill allai gael effaith faterol ar y datganiadau ariannol;

    - Cyfathrebiadau gan asiantaethau rheoli sy'n ymwneud â diffyg cydsynio â, neu ddiffygiant mewn, ymarferion adrodd ariannol allai gael effaith faterol ar y datganiadau ariannol.

5. Nid oes unrhyw is-gwmnïau, cwmnïau cysylltiol, fentrau ar y cyd na threfniadau ar y cyd heblaw'r rheini sydd wedi'u datgelu yn y cyfriflenni ariannol ac mewn nodiadau cysylltiol.

6. Mae'r datganiadau ariannol a/neu'r nodiadau i'r cyfrifon yn datgelu unrhyw -

   - Achosion neu achosion posib o dorri cyfreithiau neu reoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau i'w datgelu yn y datganiadau ariannol neu fel sail ar gyfer cofnodi colled wrth gefn;

   - Ffactorau materol eraill fyddai'n dylanwadu ar farn darllenwyr y mantolenni.

7. Nid yw asedau'r Awdurdod wedi'u defnyddio mewn unrhyw ffordd fel gwarant ar gyfer benthyciadau.

8. Mae'r holl ymrwymiadau dan brydlesau ariannol neu gytundebau hurbrynu wedi'u datgelu yn y cyfrifon.

9. Nid oes unrhyw warantau ariannol wedi'u rhoi i drydydd parti.

10. Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â phob agwedd o'r cytundebau cytundebol fyddai'n gofyn gwneud addasiad i, neu wneud datgeliad yn y datganiadau ariannol.

11. Nid oes unrhyw drafodion materol eraill gyda phartïon perthnasol (fel y maent wedi'u diffinio gan FRS 8 a'r LG SORP), heblaw'r rhai hynny sydd wedi'u cofnodi a'u datgelu yn y datganiadau ariannol.

12. Mae'r holl fuddion heb eu cyllido (e.e. blynyddoedd ychwanegol dewisol) wedi'u hystyried wrth gasglu'r ffigurau FRS17 sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol.

Mewn perthynas ag eitem 1 uchod byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi manylion i mi am unrhyw eitemau arwyddocaol sydd heb eu cynnwys yn y cyfrifon a'ch cyfiawnhad chi am y ffordd y maent wedi'u trin, os oes rhai.

Os na allwch ddarparu cynrychiolaethau mewn perthynas ag unrhyw un o'r pwyntiau uchod, fyddech chi cystal, os gwelwch yn dda, â darparu'r manylion perthnasol fel y gallwn ninnau ddefnyddio'r rheini fel sail ar gyfer trafodaeth bellach. Bydd yr wybodaeth yma'n ein helpu i gwblhau ein harchwiliad a darparu sicrwydd ychwanegol am gywirdeb a chyflawnrwydd cyfriflen yr Awdurdod.

Hoffwn ofyn i'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon dan reoliad 8 y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliad gydnabod y llythyr yma a'ch ateb i minnau'n ffurfiol os gwelwch yn dda.

Hoffwn hefyd i chi gadarnhau yn eich ateb bod y cynrychiolaethau yma wedi'u gwneud ar sail ymholiadau â'r rheolwyr a'r staff sydd â'r wybodaeth a'r profiad perthnasol (a, lle bo'n briodol, ar sail archwiliad o ddogfennaeth gefnogol) yn ddigonol i'ch bodloni eich hun eich bod yn gallu gwneud y cynrychiolaethau yma'n gywir i ni.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech drafod unrhyw rai o'r pwyntiau yma, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir iawn

David Jones
Rheolwr Archwiliadau